

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych



Denbighshire Voluntary Services Council



ADRODDIAD BLYNYDDOL ANNUAL REPORT 2006 /2007



Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant/Company Limited by Guarantee 3132487
Elusen Gofrestredig /Registered Charity 1054322

DATGANIAD CENHADOL

CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

- *mudiad annibynnol sy'n gweithio gydag a thros fudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr*
- *mae'n cynnig cymorth ymarferol; darparu llais cynrychioladol pan yn trafod gyda'r rhai sy'n cymryd penderfyniadau; yn gweithio i sianelu adnoddau at fentrau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ac yn darparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg*
- *mae'n amcanu i hyrwyddo a datblygu sector gwirfoddol egniol sy'n annog gweithgareddau cymunedol ac yn cyfoethogi bywydau pobl*

Swyddfeydd

CGGSDD
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun LL15 1AF
01824 702441
Ffacs 01824 705412
office@dvsc.co.uk

NEWCIS
9a Edison Court
Ellice Way
Parc Tech Wrecsam
Wrecsam LL13 7YT
01978 310414
Ffacs 01978 350892
newcisoffice@btinternet.com

Swyddfa Allanol CGGSDD
Uned W4
Canolfan Fusnes Morfa Clwyd
84 Marsh Road, Y Rhyl
(Ffôn/ ffacs)01745 369973
gerryfrobisher@btconnect.com

NEWVOL - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3132487 Elusen Gofrestredig 1054322

MISSION STATEMENT

DENBIGHSHIRE VOLUNTARY SERVICES COUNCIL

- *is an independent body working with and on behalf of voluntary organisations, community groups and volunteers*
- *offers practical help, provides a representative voice to decision-makers, works to channel resources into ongoing and new ventures, and provides a bilingual service in line with its Welsh Language Scheme*
- *aims to promote and develop a vibrant voluntary sector that encourages community activities and enriches people's lives*

Offices

DVSC
Naylor Leyland Centre
Ruthin LL15 1AF
01824 702441
Fax 01824 705412
office@dvsc.co.uk

NEWCIS
9a Edison Court
Ellice Way
Wrexham Tech Park
Wrexham LL13 7YT
01978 310414
Fax 01978 350892
newcisoffice@btinternet.com

DVSC Outreach Office
Unit W4
Morfa Clwyd Business Centre
84 Marsh Rd, RHYL LL18 2AF
01745 369973 (Tel & Fax)
gerryfrobisher@btconnect.com

NEWVOL - Company Limited by Guarantee 3132487 Registered Charity 1054322

'Rydym yn hyrwyddo gweithredu gwirfoddol Gallwn helpu gyda

- Cwrsiau hyfforddiant am bris rhesymol i wirfoddolwyr a gweithwyr mewn ystafell hyfforddiant cwbl hygrych

**30 cwrs
hyfforddiant i 271
o gyfranogwyr**

- Gwybodaeth a chynghor am ffynonellau ariannol

**£914,504 i 41 o
grwpiau**

- Gwasanaeth talu cyflogau

48 o fudiadau a 200+ o weithwyr

- Cefnogaeth Cyfrifo

**Cefnogaeth i 18 o fudiadau gyda throshant o
rhwyng £1,000 a £100,000 y flwyddyn**

- Recriwtio a lleoli Gwirfoddolwyr

**Cyfeirio 365 o Wirfoddolwyr
a lleoli 221**

- Gwasanaeth Cyfieithu

**Gwaith Cyfieithu i 18
o fudiadau**

- Dosbarthu gwybodaeth mewn cylchlythyrau cyson

**Argraffwyd 17 o
gylchlythyrau**

- Cynghor a gwybodaeth ar redeg neu sefydlu grŵp gwirfoddol/ cymunedol

**Cynghor
cyfansoddiadol i
38 mudiad**

- Rheoli prosiectau

**Fforwm Anableddau Dysgu Sir
Ddinbych a Gwasanaeth
Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd
Ddwyrain Cymru NEWCIS**

- Cynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd
Ystafell gynhadledd hollol hygrych (gyda offer clywedol) i
hyd at 60 o bobl ar ffurf theatr ag Ystafell Pwyllgor
fechan (hyd at 10) ar gael i'w hurio ar gyfer:

- Gweithgareddau hyfforddiant
- Seminarau/Gweithdai
- Cyfarfodydd Blynyddol

**Huriwyd yr ystafell
gynhadledd 430 o
weithiau**

We promote voluntary action
We can help with

- Provision of low cost training courses for volunteers and employees in a fully accessible training suite **23 Training Courses 361 Participants**
- Funding advice and information **41 groups obtained £914,504 in funding**
- Payroll facilities **48 Organisations
200 + Employees**
- Accounting Support **Support to 18 organisations with turnover from £1,000 to over £100,000**
- Recruiting and placement of volunteers **365 Volunteers referred and 221 placed**
- Translation Service **Translations for 18 organisations**
- Circulation of information in regular newsletters **17 issues published**
- Advice and information to help you run or establish a new voluntary/community group **Constitutional advice to 38 organisations**
- Project Management **Denbighshire Learning Disability Forum and North East Wales Carers Information Service (NEWCIS)**
- Conference / Training / Meeting Rooms Accessible Conference Room (with loop system) for a maximum of 60 persons theatre style and Small Committee Room (maximum 10) available for hire for all:
 - Training Events
 - Seminars/Workshops
 - Annual General Meetings**Conference room hired on 430 occasions**

RHAGAIR Y CADEIRYDD



Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf yn dilyn fy ethol yn Gadeirydd CGGSDd fel olynnydd Mr Gwynfor Hughes, a hoffwn ddiolch iddo am ei arweinyddiaeth a'i gyfarwyddyd.

Yn dilyn arwyddo Cytundeb Partneriaeth yn 2005 gyda Llywodraeth y Cynulliad, mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ynghyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfannau Gwirfoddoli Annibynnol yn rhan gydnabyddedig o Isadeiledd Sector Gwirfoddol yng Nghymru.

Mae'r cytundeb yn ymrwymiad pum mlynedd i ariannu, ac am y tro cyntaf yn rhoi arian craidd i Ganolfannau Gwirfoddoli. Rhoddodd ein cyfranogiad yn y Gynhadledd Isadeiledd a gynhaliwyd yn Llandudno, a agorwyd yn swyddogol gan Edwina Hart AC ym mis Chwefror 2007, gyfle i ni rwydweithio ag ymddiriedolwyr a staff CGGC a Chyngorau Gwirfoddol eraill yng Ngogledd Cymru. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn gweld mwy a mwy o ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd ar draws ffiniau i edrych ar y ffordd orau i ddiwallu anghenion y trydydd sector a dileu dyblygiad.

Parhaodd rhif yr aelodaeth yn gyson, ac mae canlyniadau da wedi'u cyflawni er bod Staff ag Ymddiriedolwyr wedi gorfod gweithio i gyllideb dyn iawn i gefnogi gweithgareddau cyfredol. (Gweler ystadegau ar dudalen 4.) Mae'n foddhaol adrodd fod ein sefyllfa ariannol wedi'i gynnal a hoffwn gydnabod waith gwych yr Is-bwyllgor Ariannol ag ymdrechion diflino ein Rheolwr Ariannol.

Ym mis Mai 2006, ar y cyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, cawsom stondin yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn Rhuthun. Bu amryw o aelodau staff a gwirfoddolwyr yn gweithio ar y stondin. 'Roedd yn llwyddiannus iawn gyda nifer fawr o fudiadau gwirfoddol yn arddangos eu deunydd er mwyn codi ymwybyddiaeth. Dosbarthwyd llawer iawn o ddeunydd cyhoeddusrwydd newydd CGGSDd yn yr Eisteddfod a nifer o sioeau eraill dros yr haf.

Llongyfarchiadau i Gerry Frobisher, ein cydlynnydd Gwirfoddoli, a ddyfarnwyd yr MBE yn Rhestr Anrhydedd Pen-blwydd y Frenhines ym mis Mehefin 2006 mewn cydnabyddiaeth o'i gyfraniad i'r Sector Gwirfoddol a'r Gymuned.

Trist yw cofnodi marwolaeth Nerys Hughes, un o'n hymddiriedolwyr, fis Tachwedd 2006. Bu'n Aelod o'r Bwrdd am 4 mlynedd ag yn gefnogwr brwd o nifer o fudiadau gwirfoddol yn ogystal â llywio sefydlu Canolfan Adnoddau Anableddau yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan. Mae'n addas iawn fod y Ganolfan wedi ei henwi Tŷ Nerys i'w hanrhydeddu.

Mae Eirwen Godden, ein Prif Swyddog ers mis Rhagfyr 1996, yn ymddeol yn fuan ac mae'r gwaith ar droed i ddod o hyd i'w holynydd. Ni allaf adael i'r cyfle fynd heibio heb gydnabod cyfraniad enfawr Eirwen i ddatblygiad CGGSDd ag i godi proffil y Cyngor ar draws y Sector Gwirfoddol. Gwyddom y bydd yn parhau'n weithgar mewn nifer o feysydd perthnasol a dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

Yn olaf, wrth i ni edrych ymlaen at benodiad Prif Swyddog newydd a chyfnod arall yn hanes CGGSDd, hoffwn dalu teyrnged i'r holl Staff am eu hymdrechion ag i'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth a'u hymroddiad.

G Francis Roberts (Cadeirydd)



CHAIRMAN'S FOREWORD

I am very pleased to present my first Annual Report since being elected Chairman of DVSC in succession to Mr Gwynfor Hughes, and I thank him for his leadership and guidance.

Further to the signing in 2005 of a Partnership Agreement with the Assembly Government, CVCs together with Wales Council for Voluntary Action and Independent Volunteer Centres form part of a recognised Voluntary Sector Infrastructure in Wales. This agreement made a five year commitment to funding, and introduced, for the first time, core funding for Volunteer Centres. Our participation in the Infrastructure Conference held in Llandudno, officially opened by Edwina Hart AM in February 2007, gave an opportunity to network with trustees and staff from WCVA and other North Wales CVCs. This coming year will see more and more commitment to working together across boundaries to work out how best to meet the needs of the third sector and to eliminate duplication.

Membership remained constant, and good results have been achieved even though the Staff and Trustees were required to work on a tight budget to support ongoing activity. (Statistics can be seen on page 5.) It is pleasing to report that our financial position has been maintained, and I acknowledge the excellent work of the Finance Sub-committee and the untiring efforts of our Finance Manager.

In May 2006, in partnership with Conwy Voluntary Services Council, an exhibition stand was manned at the Urdd National Eisteddfod, held in Ruthin, by various members of staff and volunteers. It proved very successful and a large number of voluntary organisations were able to display their leaflets to raise awareness. Significant amounts of new DVSC publicity material was distributed at the Eisteddfod and at a number of other shows over the summer months.

Congratulations to Gerry Frobisher, our Volunteer Co-ordinator who, in the Queen's Birthday Honours List in June 2006, was awarded the MBE in recognition of his contribution to the Voluntary Sector and the Community.

We recall with sadness the death in November 2006 of Nerys Hughes, one of our Trustees. She had been a Member of the Board for 4 years and had been a devoted supporter of numerous voluntary organisations and the driving force behind establishing the Disability Resource Centre at Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan. It's very fitting that the Centre has now been renamed Tŷ Nerys in her honour.

The forthcoming retirement of Eirwen Godden, who has been our Chief Officer since December 1996, means we are involved in seeking her successor. I cannot allow the opportunity to pass without acknowledging Eirwen's enormous contribution to the development of DVSC and to the raising of its profile throughout the Voluntary Sector. We know she will continue to be active in a number of related fields and wish her well in her retirement.

In closing, as we look ahead to a new Chief Officer and a new phase in DVSC's life, I wish to pay tribute to all the staff for their efforts and to the Trustees for their support and commitment.

G Francis Roberts (Chairman)

AELODAU'R BWRDD - MEMBERS OF THE BOARD 2006/2007

Llywydd -President - Anne L Roberts OBE DL

Is-Lywydd – Vice President – Eurwen H Edwards BEM

Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr -Directors/Trustees - Sector Gwirfoddol/Voluntary Sector

Richard Cartmell Mike Denman Eurwen H Edwards BEM Peter Fairhurst Julia Hobbs
Trevor R Hood Gwynfor Hughes Professor David Jones OBE Imelda Jones G Francis
Roberts [Cadeirydd/Chairman] Beth Taylor[Is-Gadeirydd/Vice-Chairman] Alan Williams
Philip Williams Nerys Hughes

Arsyllwyr / Observers - Sector Gwirfoddol/Voluntary Sector

Nerys Biddulph MBE Edith Frodsham Delwyn Lewis

Arsyllwyr /Observers - Sector Statudol/Statutory Sector

Gwynfor Griffiths, [Rheolwr Sector Gwirfoddol a Chynhwysiad Cymdeithasol Cyngor Sir
Ddinbych / Social Inclusion and Voluntary Sector Manager DCC] Janette Williams [Cyngor Sir
Ddinbych/Denbighshire County Council] [Deputies:- David Davies, Hannah Griffin] Councillor
Ken Hawkins [Cymdeithas Cyngorau Lleol Sir Ddinbych/ Denbighshire Association of Local
Councils] Sally Baxter [Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych / Denbighshire Local Health Board]
[Deputy: Mair Dempster-Jones] Vicky Russell [Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir
Ddinbych/Conwy & Denbighshire NHS Trust]

Ysgrifennydd y Cwmni/Company Secretary – Gareth Mawby

IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES

Pwyllgor Cyllid ag Adnoddau Dynol / Finance and Human Resource Committee

Eurwen H Edwards BEM Peter Fairhurst Julia Hobbs Gwynfor Hughes
G Francis Roberts Beth Taylor Alan Williams

Pwyllgor Ymgynghori NEWCIS / NEWCIS Advisory Committee

Beth Taylor [Cadeirydd/Chairman] Sandra Mitchell [Is-Gadeirydd/Vice-Chairman] Jeni Andrews
Betty Challinor Gareth Davies Mary Davies Lin Hawtin Lynne Hughes
Elaine Jones Sheila Lyons Carol Martin Kate Meredith Elizabeth Pugh Michelle Voyce
Valerie Wandless. Julia Hobbs and Alan Williams (DVSC reps)

Fforwm Sir Ddinbych i Anabledau Dysgu /Denbighshire Forum for Learning Disabilities

Jacqui Caldwell [Cadeirydd/Chair] Emma Ashley [Is-Gadeirydd/Vice-Chairman] Ray Ashley Alan
Davies Edith Frodsham Celia Lewis Nerys Owen Gordon Pope Shaun Roberts Eddie Thomas
Kath Thomas Janice Webster Bernard Williams. Trevor Hood and Gwynfor Hughes (DVSC
reps)

Pwyllgor Ymgynghori'r Biwro Gwirfoddoli – o Rhagfyr 2006

Volunteer Bureau Advisory Committee – as from December 2006

John Williams [Cadeirydd/Chair] Carol Evans [Is-Gadeirydd/ Vice Chair] John Bellis Richard
Cartmell David Dudley Eric Gleave Gwynedd Haack Anne Horobin Polly Leaver David
Sylvester. Nerys Hughes Prof David Jones, Imelda Jones and Beth Taylor (DVSC reps)

CYDNABYDDIAETH /ACKNOWLEDGEMENTS

Hoffai CGGSDd gydnabod, gyda diolch, y gefnogaeth a dderbyniwyd gan y mudiadau canlynol yn ystod y flwyddyn

DVSC wishes to acknowledge, with thanks, the support received from the following organisations during the year

AON Risk Services

Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych / Denbighshire Local Health Board
Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint / Flintshire Local Health Board
Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam / Wrexham Local Health Board
Cist Gymunedol Clwyd / Clwyd Community Chest
Cronfa'r Ddegwm / Welsh Church Act
Cymdeithas Tai Clwyd
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Association
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam / Wrexham County Borough Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint / FLVC
Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council
Cyngor Tref Llangollen / Llangollen Town Council
Cyngor Tref Prestatyn / Prestatyn Town Council
Cyngor Tref Rhuthun / Ruthin Town Council
Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Datblygu Cymunedol Cymru / Community Development Cymru
Gwirfoddolwyr y Mileniwm CGGC/ WCVA Millennium Volunteers
Soroptomists Rhyngwladol / International
Undeb Ewropeaidd / European Union
Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr / Princess Royal Trust for Carers

Ymgynghorwyr i'r Cwmni / Advisors to the Company

Cyfreithwyr / Solicitors:	Gamlins, 31/37 Russell Road, Y Rhyl
Bancwyr / Bankers:	Banc Barclays Bank
Archwilwyr / Auditors:	Parry Scholes a'i Gwmni, 5 Ffordd y Dyffryn, Dinbych / Parry Scholes & Co, 5 Vale Street, Denbigh

CRYNHOAD O WEITHGAREDDAU'R FLWYDDYN

PROSIECT SGILIAU ADFYWIAD

Yn ystod y flwyddyn bu ein Uwch Swyddog Datblygu a'r Swyddog Datblygu yn Y Rhyl yn gweithio ochr yn ochr â Chydlynedd Cymunedau'n Gyntaf De Orllewin Y Rhyl i sicrhau arian o'r Prosiect Sgiliau Adfywiad a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Sefydlwyd 'Sgiliau Adfywiad' i ymdrin â'r diffyg enfawr yn y nifer o weithwyr cymunedol profiadol a chymwysedig yng Nghymru. Mae'r fenter, a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn cefnogi nifer o gynlluniau prentisiaeth datblygu cymunedol ar hyd a lled Cymru.

Sicrhawyd cyfanswm o £70,000, i'w dderbyn dros gyfnod o ddwy flynedd i gyflogi prentis Gweithiwr Datblygu i Dde Orllewin Y Rhyl. 'Roeddem yn rhan o'r broses cyfweld, ag apwyntiwyd Carina Edwards i'r swydd a dechreuodd ar y gwaith ym mis Ionawr 2007. Ffactor bwysig yn llwyddiant y prosiect oedd sicrhau swm o arian yn y cais i dalu am gwrs ar ddatblygu cymunedol a ddarparwyd gan Goleg Y Rhyl. Mae Carina ynghyd ag wyth aelod o'r gymuned yn mynychu'r cwrs yn wythnosol yn adeilad Cymunedau'n Gyntaf.

CYNGOR AM ARIANNU A CHYFANSODDIADAU

Mae'r rhan fwyaf o ymholiadau yn parhau i fod am ffynonellau ariannol a chymorth gyda chyfansoddiadau. Mae Swyddogion yn sicrhau fod ganddynt wybodaeth gyfoes ag yn defnyddio gwybodaeth gyfrifiadurol megis 'Funderfinder' a 'Grantfinder'. Rhoddir cyngor ymarferol ar gwblhau ceisiadau grant ag ysgrifennu a mabwysiadu cyfansoddiadau. Cynorthwywyd deugain o grwpiau a mudiadau yn y Sir i sicrhau dros £914,504 yn ystod y flwyddyn dan sylw. Esiaml o grŵp a gynorthwywyd oedd Canolfan Seion Dinbych a dderbyniodd swm o £48,000 o Gronfa Allweddol Sir Ddinbych i sefydlu swit technoleg gwybodaeth yn y ganolfan, i brynu offer ag i wneud ychydig o waith cynnal a chadw.



HYFFORDDIANT

Trefnwyd amryw o sesiynau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gyda'r cyrsiau ar Hylendid Bwyd Elfennol yn profi i fod yn boblogaidd iawn. Mynychodd 58 o gynrychiolwyr 4 cwrs a gynhaliwyd yn Y Rhyl.

Drwy'r amryw o gylchlythyrau a gyhoeddir gan GGGSDd parhawn i hysbysebu cyrsiau a drefnir gan fudiadau gwirfoddol / cymunedol, colegau lleol a'r Awdurdod Lleol.

Menter newydd yn ystod y flwyddyn oedd datblygu rhaglen hyfforddiant yn fewnol drwy ddefnyddio sgiliau aelodau staff. Ym mis Mawrth 2007 cynhaliwyd cwrs hynod lwyddiannus gan ddau aelod staff ar Rôl a Dyletswyddau Ymddiriedolwyr Elusen. Bydd y trefniant yma'n cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2007/2008 fel rhan o'r Cytundeb Isadeiledd i Gynghorau Gwirfoddol Lleol yng Nghymru.

FFEIRIAU GOFAL

Mewn ymgais i godi proffil y Sector Gwirfoddol, yn ardal Llangollen ar y dechrau, cydweithiom ag amryw o fudiadau ag



SUMMARY OF THE YEAR'S ACTIVITIES

SKILLS FOR REGENERATION PROJECT

During the year our Senior Development Officer and the Rhyl based Development Officer have worked alongside the Co-ordinator of Communities First South West Rhyl to access funding from the Skills for Regeneration Project administered by the Wales Council for Voluntary Action.

'Skills for Regeneration' was set up to deal with the substantial lack of suitably experienced and qualified community development workers in Wales. This National Assembly funded initiative supported the piloting of a number of community development apprenticeship schemes across Wales.

A sum of £70,000 was received, over a two year period, for the employment of an apprentice Development Worker for Rhyl South West. We took part in the interview process and Carina Edwards was appointed to the post and she commenced her duties in January, 2007. An important factor in the success of this application was the building in of an amount to cover the costs of a course on community development provided by Rhyl College. Carina attends this course, which is held at the Communities First building itself, on a weekly basis as well as eight other community members.

FUNDING AND CONSTITUTIONAL ADVICE

The majority of enquiries received continue to be about funding sources and help with constitutions. Officers keep up to date with available sources and also utilize computerised sources of information such as 'Funderfinder' and 'Grantfinder'. Practical advice is also given on completing applications and drawing up constitutions. We helped forty one groups and organisations in the County to access an additional sum of £914,504 during the year under review. An example of a group benefiting in this way was Canolfan Seion in Denbigh. They received a sum of £48,000 from the Denbighshire Key Fund to establish an IT Suite at the centre, to purchase equipment and carry out small scale renovation work.



TRAINING

Several training sessions were arranged during the year with courses on Basic Food Hygiene proving to be very popular. 58 delegates attended 4 Basic Food Hygiene courses held in Ruthin and Rhyl.

Through the various newsletters produced DVSC also publicises courses arranged by other voluntary / community organisations, local colleges and the Local Authority.

A new initiative, during the latter part of the year under review, was the development of an in house training programme utilising existing members of staff. Two staff members undertook a very successful training course on the Roles and Responsibilities of Charity Trustees in March, 2007. This arrangement will be further developed during 2007/2008 as part of the new Infrastructure Agreement for CVCs in Wales.

CARE FAIRS


In an effort to raise the profile of the Voluntary Sector in the Llangollen area we worked with several organisations and



yn dilyn rhedeg standin wybodaeth yn wythnosol yn y Farchnad Cynnyrch yn Neuadd y Dref yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf, cynhaliwyd Ffair Gofal lwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa ym mis Hydref 2006. Mae Age Concern, NEWCIS a Gwasanaeth Allanol Gwledig Mind, yn arbennig, wedi gweld eu bod yn llawer mwy gweithgar yn yr ardal erbyn hyn. Yn dilyn, cynhaliwyd Ffair yr un mor llwyddiannus yn Rhuthun ym mis Ionawr 2007. Mae rhagor o Ffeiriau ar y gweill yn Rhuddlan, Prestatyn, Corwen, Dinbych a'r Rhyl dros y flwyddyn i ddod.

CYLCHLYTHYRAU

Cyhoeddir dau gylchlythyr rheolaidd gan GGGSDd sef y Gwirfoddolwr yn Sir Ddinbych (cylchrediad oddeutu1200) a'r Bwletin Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cylchrediad oddeutu 400). Argraffir pum rhifyn o bob un yn flynyddol ac anogir mudiadau i ddefnyddio'r cyfrwng i hyrwyddo eu hunain a'u gwaith. Mae Fforwm Anableddau Dysgu Sir Ddinbych yn cyhoeddi'r 'Denfold News' yn chwarterol a NEWCIS yn dosbarthu eu 'News for Carers.'



CYNRYCHIOLAETH A GWEITHIO AR Y CYD

Fe wnaethom barhau i weithio gyda'r Sector Gwirfoddol/ Cymunedol ar amryw o lefelau yn cynnwys cyswllt gyda grwpiau unigol, rhwydweithiau thematig sector gwirfoddol a fforymau, sesiynau briffio, a phartneriaethau aml-asiantaethol a grwpiau cynllunio. Mae'r Sector yn ymwneud ag o leiaf pedwar ar ddeg o bartneriaethau strategol ag yn chwarae rhan allweddol mewn amrediad eang o weithgareddau megis dysgu gydol oes, iechyd a gofal cymdeithasol, plant a phobl ifanc, diogelwch cymunedol, cynllunio, pobl hŷn, cyfiawnder cymunedol, cynllunio mewn argyfwng a threfniadau compact. Dwy bartneriaeth strategol newydd a ffurfiwyd eleni oedd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a'r Bartneriaeth Datblygu Gwledig. Mae'r grwpiau a'r partneriaethau hyn wedi galluogi CGGSDd i weld pa faterion sy'n bwysig i amrediad eang o grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

TÎM IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES (HSCWB)

Mae'r Tîm yn cynnwys Uwch Hwylusydd llawn amser, Swyddog Cyswllt Plant a Phobl Ifanc, llawn amser, Swyddog Cyswllt Oedolion a Phobl Hŷn a Chydlynnydd Fforwm Anableddau Dysgu, rhan amser.


Dosbarthwyd gwybodaeth yn rheolaidd i dros 1,000 o unigolion â diddordeb, am ddigwyddiadau, ymgynghoriadau a materion ar draws bob agwedd o iechyd a gofal cymdeithasol gan aelodau'r tîm, drwy ddau gyfarfod rhwydwaith chwarterol (i fudiadau Plant a Phobl Ifanc, ag i'r rhai yn ymwneud ag Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles), cyfarfodydd y Fforwm Anableddau Dysgu, erthyglau yn y Gwirfoddolwr, Bwletin Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Denfold News, briffiau electroneg a thrwy'r post. Mae aelodaeth y tri rhwydwaith / fforymau wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf a chylchrediad y cyhoeddiadau wedi cynyddu hefyd. Cefnogwyd 53 o gynrychiolwyr Sector Gwirfoddol i gymryd rhan mewn partneriaethau strategol a gweithgorau.

Mae aelodau'r tîm a chynrychiolwyr Sector Gwirfoddol wedi ymwneud â datblygu strategaethau a mentrau mewn amrywiaeth o feysydd, yn cynnwys Asesiad Anghenion i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles newydd, Cynllun Sengl Plant a Phobl Ifanc, Cynllunio'n Seilledig ar y Person, Strategaeth Eiddo Gofal Cychwynnol, Fframwaith Asesiad Cyffredin, Strategaeth Comisiynu ar Gamdefnyddio Sylweddau, Cadw'n Iach y Gaeaf Yma, a lansiad 'Pecyn Anffafiaeth Oed' Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol .

following the hosting of weekly information stands at the Produce Market in the Town Hall in June and July a very successful Care Fair was held in the Memorial Hall in October 2006. Age Concern Central, NEWCIS and Mind Rural Outreach, in particular, have reported that they are now much more active in the area. Subsequently, another equally successful Care Fair was held at Ruthin in January 2007. Further Fairs are planned in Rhuddlan, Prestatyn, Corwen, Denbigh and Rhyl over the coming year.

NEWSLETTERS

Two regular Newsletters are produced by DVSC. They are the Volunteer in Denbighshire (circulation circa 1200) and the Health and Social Care Bulletin (circulation circa 400). Five issues of each are produced annually and organisations are encouraged to use this medium to publicise themselves and their work. Denbighshire Forum for Learning Disability issue the Denfold News quarterly and NEWCIS distribute their News for Carers.



REPRESENTATION AND JOINT WORKING

We continued to work with the Voluntary/Community Sector at a variety of levels, including individual group contact, voluntary sector thematic networks and forums, briefing sessions, and multi-agency partnership and planning groups. The sector is involved in at least fourteen strategic partnerships playing a key role in a wide range of activities such as lifelong learning, health and social care, children and young people, community safety, planning, older people, community justice, emergency planning and compact arrangements. Two new strategic partnerships formed this year were the Local Service Board and Rural Development Partnership. These mechanisms enabled DVSC to identify issues of importance to a wide range of voluntary and community groups.

HEALTH, SOCIAL CARE AND WELLBEING (HSCWB) TEAM

The HSCWB team consists of a full time Senior Facilitator, a full time Children & Young People's Partnerships Liaison Officer, a part time Adult & Older People's Liaison Officer and a part time Learning Disability Forum Co-Ordinator.

Over 1,000 interested individuals and groups were regularly informed of events, consultations and issues across all aspects of health and social care by team members, through two quarterly network meetings (for Children & Young People's organisations, and those involved with Health, Social Care & Wellbeing), the Learning Disability Forum meetings, articles in The Volunteer, the Health & Social Care Bulletin and Denfold News, e-briefings and mailings. Membership of the three networks/forums has risen over the past year and the circulation of the three publications has also increased.

53 Voluntary Sector representatives were supported to sit on strategic partnerships and working groups.

Team members and voluntary sector representatives have been involved in developing strategies and initiatives across all areas, including The Needs Assessment for the new Health, Social Care & Wellbeing Strategy, the Children and Young People's Single Action Plan, Person Centred Planning, the Primary Care Estates Strategy, the Common Assessment Framework, a Substance Misuse Commissioning Strategy, the Keep Well This Winter campaign, and the launch of the Welsh Assembly Government's 'Age Discrimination Toolkit'.

Mae aelodau'r tîm wedi'u hyfforddi i gynorthwyo gyda'r Aseidiadau Effeithiau Iechyd, i drosglwyddo'r rhaglen "Tymhorau Tyfiant" i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef profedigaeth, ag ar y cyd ag asiantaethau eraill wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar Drais yn y Cartref ag Amddiffyn Plant. Mae'r gweithdai a fynychwyd yn cynnwys rhai ar Dlodi Tanwydd, Dyfodol Isadeiledd y Sector Gwirfoddol, Cyngor Budd-daliadau i bobl dros 50 oed, Anffafiaeth Oedran a Chyfranogiad ag Ymglymiad Defnyddwyr Gwasanaethau.

Cydweithwyd ar baratoi a chynnal Cynhadledd Tai gyda Fforwm Trais yn y Cartref a Diogelwch Personol, ag ar sefydlu peilot Fframwaith Aseiad Cyffredin i'r Prosiect Plant a Phobl Ifanc. Hyrwyddwyd prosiect Cymunedau Diogel Amddiffyn Plant NSPCC gan mai Sir Ddinbych oedd yr unig ardal beilot yng Nghymru. Mynychwyd y gweithgaredd Dathlu Oed ag arddangoswyd stondin cyhoedduswydd CGGSDd. Mae prosiect rhyng-ghenedlaeth wedi ei ddechrau i wella'r ddealltwriaeth rhwng pobl o bob oed drwy weithgareddau a drefnwyd.

Mae dogfennau ymgynghori wedi'u crynhoi a'u dosbarthu yn cynnwys Bywydau Cyflawn, Cymunedau Cefnogol (ynglŷn â bwriad y Cynulliad i wella Gwasanaethau Cymdeithasol dros y deng mlynedd nesaf) a Strategaeth Genedlaethol Gwasanaeth Ieuencid.

BIWRO GWIRFODDOLI

Te Prynawn Wythnos y Gwirfoddolwyr, Eirianfa, Dinbych

Cynhaliwyd Te Prynawn llwyddiannus i ddathlu Wythnos y Gwirfoddolwyr, yn Eirianfa, Dinbych ym mis Mehefin 2006. 'Roedd 78 o wirfoddolwyr a chydlynwyr/trefnwyr o nifer o grwpiau gwirfoddol yn bresennol, a chyflwynwyd tystysgrifau i wirfoddolwyr gan y Cyngwr Raymond Bartley, Maer Dinbych. Diddanwyd y gwsteion gan blant Ysgol Gwaenynog, Dinbych am dros hanner awr gyda detholiad hyfryd o ganeuon. 'Roedd y plant yn wych a gwelwyd ambell i ddeigryn yn llygaid llawer iawn o'r gynulleidfa!



Digwyddiadau eraill a drefnwyd gan staff y Biwro oedd:

- Noson wobrwyo Gwirfoddolwyr y Mileniwm, Neuadd Sant Melyd, Gallt Melyd.
- Byrddau arddangos i hyrwyddo Wythnos y Gwirfoddolwyr yn Llyfrgell Llangollen, Canolfan y Rhosyn Gwyn, Y Rhyl a siop Somerfield, Prestatyn



GWIRFODDOLWYR Y MILENIWM

